**Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig**
**Department for Environment and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf: ATISN 11343
Dyddiad: 12 Gorffennaf 2017

Annwyl ,

**ATISN 11343 – CAIS AM WYBODAETH**
**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990 – ADRAN 78**
**APÊL GAN MORBAINE LIMITED AM GAIS AMLINELLOL AR GYFER DATBLYGIAD PRESWYL SY'N CYNNWYS HYD AT 366 O ANHEDDAU, GYDA FFORDD FYNEDIAD, PARCIO A CHYFLEUSTERAU ATODOL AR DIR AR BEN Y FFRIDD, BANGOR, GWYNEDD, LL57 2LZ**
**CAIS RHIF: C13/1143/11/AM.**

Diolch am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 14 Mehefin 2017. Dyma'r cais a wnaethoch:

> "Oes gennych gopi o adroddiad yr arolygydd sy'n sail i lythyr y Gweinidog? Methu dod o hyd iddo ar y we!"

Rwyf wedi penderfynu bod yr wybodaeth a ddisgrifir uchod wedi ei heithrio o'i datgelu o dan reoliad 12(4) (e) o Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (ynghylch datgelu gohebiaeth fewnol). Mae'r rhesymau pam yr wyf yn teimlo bod yr wybodaeth wedi ei heithrio rhag cael ei datgelu wedi eu hamlinellu isod.

Pan fo Arolygwr Cynllunio yn paratoi adroddiad i gais sydd wedi ei alw i mewn neu apêl cynllunio i Weinidogion Cymru ei ystyried a bod yr adroddiad yn gysylltiedig ag ymchwiliad cyhoeddus neu wrandawiad, mae'r Arolygwr yn rhoi amlinelliad o'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr ymchwiliad/gwrandawiad, y casgliadau ar y prif faterion ac argymhelliad i Weinidogion Cymru. Nid yw Adroddiadau Arolygwyr i geisiadau sydd wedi eu galw i mewn neu apeliadau cynllunio sydd wedi'u hadfer yn cynnwys penderfyniadau ffurfiol, dim ond argymhellion i Weinidogion Cymru eu hystyried fel yr awdurdod sy'n penderfynu. Gall Gweinidogion Cymru ddewis derbyn neu wrthod argymhellion Arolygwyr.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel:
E-bost ● Email:
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

Mae Adroddiadau Arolygwyr yn sail i'r penderfyniad gan Weinidogion Cymru o ran a ydynt i roi caniatâd cynllunio am geisiadau cynllunio sydd wedi'u galw i mewn neu eu hadfer. Unwaith y bydd penderfyniad ffurfiol wedi'i wneud gan Weinidogion Cymru ar gais sydd wedi'i alw i mewn neu apêl cynllunio wedi'i adfer, bydd y prif unigolion sy'n gysylltiedig â'r cais/apêl yn derbyn copi o Adroddiad yr Arolygwr yn ogystal â'r llythyr penderfynu ffurfiol a gallai'r unigolion perthnasol eraill wneud cais am gopi.

Wedi hynny gellir herio penderfyniad o fewn 6 wythnos drwy apelio i'r Uchel Lys o dan Adran 288 Deddf Gwlad a Thref 1990. Bwriad Adroddiadau Arolygwyr yw eu rhyddhau i'r cyhoedd yn dilyn penderfyniad ffurfiol gan Weinidogion Cymru ac os nad oes rheswm cryf o ran diddordeb y cyhoedd i ryddhau yr wybodaeth hon yn gynnar, caiff ei rhyddhau ar ddyddiad yn y dyfodol fel arfer.

Tan i Weinidogion Cymru wneud penderfyniad ffurfiol, mae Adroddiadau Arolygwyr gyda argymhellion gan Weinidogion Cymru yn llunio rhan o'r cyngor mewnol. Nid yw penderfyniad 'o blaid' yn benderfyniad ffurfiol ar gais a alwyd i mewn nac apêl cynllunio a adferwyd, ac nid yw'n dylanwadu ar benderfyniad terfynol Gweinidogion Cymru na rhinweddau cynllunio y cais/apêl.

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn asiantaeth weithredol o Lywodraeth Cymru a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol. Yng ngoleuni'r ffaith honno rydym yn fodlon bod Adroddiad y Arolygwr yn ohebiaeth fewnol at ddibenion rheoliad 12(4)(e) y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Wrth ddod i'r penderfyniad hwn rydym wedi ystyried y cyngor canlynol a ddarparwyd gan Swyddfa y Comisiynydd Gwybodaeth ym mharagraff 22 o'r Canllawiau ar Ohebiaeth Fewnol (fersiwn 3):

> 'mae gohebu mewnol yn cynnwys cyfathrebu rhwng asiantaeth weithredol a'r adran sy'n ben arni, gan bod asiantaeth weithredol yn rhan o'r adran hon at ddibenion eu Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Bydd gohebiaeth rhwng asiantaethau gweithredol, neu rhwng asiantaeth weithredol ac adran arall o lywodraeth ganolog, felly hefyd yn ohebiaeth fewnol.'

Mae er lles y cyhoedd i sicrhau bod gennym system gynllunio effeithiol a thryloyw, sy'n deg i bawb. Pe byddai casgliadau ac argymhellion yr Arolygwr Cynllunio yn cael eu rhyddhau cyn i Weinidogion Cymru wneud y penderfyniad ffurfiol, mae perygl y byddai hyn yn tanseilio effeithiolrwydd, tryloywder a di-dueddrwydd y broses gynllunio, ac y byddai oedi wrth wneud penderfyniadau. Mae'n bosibl y byddai unigolion hefyd yn cyflwyno sylwadau pellach ar sail cynnwys yr adroddiad, y byddai Gweinidogion Cymru, er tegwch, yna'n gorfod eu hystyried ac o bosibl yn eu dosbarthu i eraill sydd â diddordeb yn yr apêl cynllunio a adferwyd, fel bod ganddynt gyfle i ymateb.

Gallai hyn arwain at ail-agor gwrandawiad cyhoeddus ac Adroddiad Arolygydd arall, gan ei wneud yn anodd cau yr achos. Mae'r system bresennol yn sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen i hwyluso trafodaeth gyhoeddus a chymryd rhan mewn penderfyniadau cynllunio, a'r manteision i'r cyhoedd o gael system gynllunio effeithiol ac effeithlon ble y caiff cynlluniau a phenderfyniadau eu gwneud o fewn amserlenni rhesymol.

Fel a nodwyd uchod, caiff Adroddiadau Arolygwyr eu rhyddhau pan fydd penderfyniadau ffurfiol wedi eu gwneud gan Weinidogion Cymru. Nid yw rhyddhau llythyrau 'o blaid' yn benderfyniadau ffurfiol ar geisiadau a elwir i mewn neu a adferwyd. Maent yn holi am ragor o wybodaeth ac eglurder ar gytundeb gyfreithiol ac nid ar faterion cynllunio. Mae hyn er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i gyrraedd penderfyniad sy'n ystyried yr holl faterion sy'n gysylltiedig â phenderfynu ar gais a alwyd i mewn neu apêl cynllunio a adferwyd. Hefyd, nid oes gofyniad cyfreithiol o dan ddeddfwriaeth berthnasol cynllunio gwlad a thref i Weinidogion Cymru ryddhau Adroddiadau Arolygwyr cyn iddynt benderfynu ar gais a alwyd i mewn neu apêl a adferwyd.

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol: Yr Uned Hawl i Wybodaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ neu drwy e-bostio: FreedomOfInformation@cymru.gsi.gov.uk

Cofiwch ddyfynnu y cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hefyd yr hawl i gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dyma gyfeiriad y Comisiynydd Gwybodaeth:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

Fodd bynnag, nodwch na fydd y Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio mewn i gwŷn tan y bydd wedi bod trwy ein proses adolygu mewnol ein hunain.

Yn Gywir,

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.